

# Hysbysiad o Addefiad – Dychwelyd Nwyddau (hurbrynu neu werthiant amodol)

At [dwrnai] yr Hawlydd

--

Enw'r llys	
Rhif yr hawliad	
Yr Hawlydd (gan gynnwys y cyfeirnod)	
Y Diffynnydd (gan gynnwys y cyfeirnod)	
Dyddiad geni'r Diffynnydd	
Dyddiad	

Gyda'r hysbysiad hwn, amgaeir copi o addefiad y diffynnydd o'ch hawliad chi

- Ticiwch a llenwch naill ai A neu B a gwneud yn siŵr bod manylion y dyfarniad yn D wedi'u cwblhau.
- Cofiwch lofnodi a dyddio'r ffurflen. Mae eich llofnod yn tystio bod y wybodaeth a roddwyd gennych yn gywir.
- Dychwelwch y ffurflen i'r llys o fewn 14 diwrnod.

## A NID WYF YN DERBYN y swm a addefwyd gan y diffynnydd i ddiwallu fy hawliad

Dylech fod yn bresennol yn y llys ar y diwrnod a bennwyd ar gyfer y gwrandawriad. Os na fyddwch yn bresennol, gellid llunio gorchymyn yn eich absenoldeb.

## B RWY'N DERBYN y swm a addefwyd gan y diffynnydd i ddiwallu'r hawliad

Ticiwch **un** blwch yn unig isod, a dilynwch y cyfarwyddiadau.

### Rwy'n derbyn cynnig y diffynnydd i dalu

Llenwch holl fanylion y dyfarniad yn D. Bydd y llys yn llunio gorchymyn dan adrannau 133 ac 135 Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 ar gyfer dychwelyd y nwyddau, yn ohiriedig yn unol â'r cynnig.

Ni fydd rhaid i chi fod yn bresennol yn y llys ar y diwrnod a bennwyd ar gyfer y gwrandawriad.

### Nid yw'r diffynnydd wedi gwneud unrhyw gynnig i dalu

Llenwch holl fanylion y dyfarniad yn D. Dywedwch sut yr ydych am i'r diffynnydd dalu. Gallwch ofyn i'r dyfarniad gael ei dalu drwy randaliadau neu mewn un taliad. Bydd y llys yn anfon gorchymyn i'r diffynnydd dalu. Anfonir copi atoch chwithau hefyd.

### NID wyf yn derbyn cynnig y diffynnydd i dalu

Llenwch holl fanylion y dyfarniad yn D, a dywedwch sut yr ydych am i'r diffynnydd dalu. Rhowch eich rhesymau dros wrthwynebu cynnig y diffynnydd i dalu ar gefn y ffurflen hon, os bydd rhaid. Bydd y llys yn pennu cyfradd dalu ac yn anfon gorchymyn i'r diffynnydd dalu. Anfonir copi atoch chwithau hefyd.

## C Nid yw dyddiad geni'r Diffynnydd wedi ei nodi yn y ffurflen ymateb, ond mae'r hawlydd yn ei wybod, sef

D	D	M	M	B	B	B	B
---	---	---	---	---	---	---	---

## Nid yw dyddiad geni'r Diffynnydd wedi ei nodi yn y ffurflen ymateb ac nid yw'r hawlydd yn ei wybod

## D Manylion y dyfarniad

Os nad ydych yn derbyn cynnig y diffynnydd, dywedwch sut yr hoffech i'r dyfarniad gael ei dalu.

Hoffwn i'r dyfarniad gael ei dalu

(ar unwaith)

(fesul rhandaliadau o £ \_\_\_\_\_ y mis)

(yn llawn erbyn \_\_\_\_\_)

Rhestrwch y nwyddau sydd i'w dychwelyd: .....

### Nodwch y cyfansymiau fel y'u dangosir

Swm balans cyfanswm y pris nas talwyd, fel y'i nodir yn yr hawliad .....

Llai unrhyw swm a dalwyd ers cyhoeddi'r hawliad .....

### Balans cyfanswm y pris

Ffioedd llys a gofnodwyd mewn perthynas â'r hawliad .....

Costau'r twrnai (os oes rhai) ar gychwyn yr hawliad .....

Costau'r twrnai (os oes rhai) ar gofnodi dyfarniad .....

### Cyfanswm ffioedd a chostau'r twrnai

£

Tystiaf fod y wybodaeth a roddwyd yn gywir

Llofnod.....

Dyddiad.....